TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD Y PENDERFYNIAD	20 Ebrill 2017
DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD	24 Ebrill 2017
DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd.	2 Mai 2017

ENW A THEITL YR AELOD CABINET

Y Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Tai, Gofal Cwsmer a Llyfrgelloedd, Amddifadedd a Chydraddoldeb

PWNC

Ymestyn Tymor Cynrychiolwyr ar Fwrdd Cartrefi Cymunedol Gwynedd

PENDERFYNIAD –

Awdurdodi yn unol â'r Adroddiad Swyddog

RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –

Gweler yr Adroddiad Swyddog

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Dim

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG

Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet :	Y Cynghorydd Ioan Ceredig Thomas Aelod Cabinet Tai; Gofal Cwsmer a Llyfrgelloedd; Amddifadedd a Chydraddoldeb
Enw a theitl Awdur yr Adroddiad :	Iwan G D Evans Pennaeth Gwasnaethau Cyfretihiol
Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad :	20/4/17
Llofnod yr Aelod/au Cabinet :	

Pwnc :

Ymestyn Tymor cynrychiolwyr ar Fwrdd Cartrefi Cymunedol Gwynedd

Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad:

Ymestyn penodiad y Cynghorwyr Anne Lloyd-Jones, Stephen Churchman, Michael Sol Owen a John Wyn Williams i gynrychioli Cyngor Gwynedd ar Fwrdd Cartrefi Cymunedol Gwynedd hyd at 1 Awst 2017 neu hyd y diddymir y penodiad pa ru'n bynnag fydd Gynharaf.

Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad:

Penodir 4 cynrychiolwyr o Gyngor Gwynedd i Fwrdd Cartrefi Cymunedol Gwynedd i weithredu fel cyfarwyddwyr. Mae 12 aelod o Fwrdd CCG sy'n cynnwys pedwar tenant, pedwar aelod wedi eu enwebu gan Gyngor Gwynedd a phedwar aelod annibynnol. Mae'r cwmni yn ystyried fod angen cynrychiolaeth ar draws pob dosbarth o gyfarwyddwyr i weithredu ac angen sicrwydd Bwrdd cyflawn i gynnal ei weithgareddau. Oherwydd y cyfnod etholiad a natur trosiannol y cyfnod yma mae'r cwmni yn rhagweld risg i'w allu i weithredu ar gyfnod pwysig hyd y bydd cynrychiolaeth y Cyngor wedi ei ail sefydlu.

Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad:

Bwriad y penderfyniad yma fyddai cadarnhau fod y pedwar aelod "Gwynedd " presennol yn gallu parhau fel cyfarwyddwyr ar fwrdd y cwmni yn ystod y cyfnod

trosiannol, ôl etholiad. Gan fod hwn yn gyfnod byr a bod angen sicrhau cynrychiolaeth ar ran y Cyngor dros dro ystyrir fod cymryd y camau yma yn unol ag Erthyglau'r cwmni yn dderbyniol er sicrhau sefydlogrwydd i'r cwmni.

Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau:

Dim.

Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad

Ymgynghorwyd a'r pedwar aelod presennol sydd wedi cadarnhau eu bodlonrwydd i barhau am y cyfnod.

Prif Weithredwr –

Mae'r cynnig yn synhwyrol i sicrhau fod Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn gallu parhau i weithredu tra bydd y Cyngor yn penodi cynrychiolwyr newydd

Prif Swyddog Cyllid –

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol

Swyddog Monitro –

Awdur yr adroddiad.

Aelod/au Lleol – Ddim yn fater lleol